



Y Pwyllgor Menter a Dysgu

EL(3) 29-08 (p2) : 26 Tachwedd 2008

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gorchymyn Arfaethedig Drafft (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Di-drafftig) 2009

Tystiolaeth Chwarae Cymru ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig

- 1.1. Mae Chwarae Cymru'n falch o gael cyfle i gynnig tystiolaeth o blaid y Gorchymyn uchod. Yn unol â'ch cais, mae ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar y cwestiynau ymgynghori yn Atodiad 2. 'GCD Llwybrau Di-drafftig – Cwestiynau'r llythyr ymgynghori'.
- 1.2. Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant. Ni yw'r elusen sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i bob un yng Nghymru sy'n gofalu neu sydd â chyfrifoldeb am unrhyw amgylchedd ble y gallai plant a phobl ifanc chwarae. Rydym yn eiriol dros hawl plant i chwarae. Mae chwarae a ddewisir yn rhydd yn hanfodol bwysig i ddatblygiad iach pob plentyn a pherson ifanc. Mae gan bob plentyn hawl i ddarpariaeth chwarae o safon yn eu cymunedau a byddwn yn gweithio'n strategol i gyflawni'r nod yma ar eu rhan. Rydym wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddrafftio'r Polisi Chwarae cenedlaethol (2002) a chyflwyno argymhellion ar gyfer Chwarae yng Nghymru (2006) Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae'r Cynulliad Cenedlaethol. Daw aelodau Chwarae Cymru o etholaeth eang sy'n cynnwys mudiadau gwirfoddol lleol a rhanbarthol, awdurdodau lleol ac unigolion, cyflogwyr a gweithwyr chwarae.
- 2.1. Cwestiwn: Beth yw eich barn ynghylch yr egwyddor cyffredinol y dylid caniatáu cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a ddynodwyd ym Mater 10.xx, i'r Cynulliad?
- 2.2. Mae Chwarae Cymru'n cefnogi'r cynnig i ganiatáu cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn hyn o beth.
- 2.3. Yn aml iawn, plant yw aelodau cudd ein cymdeithas pan ddaw'n fater o ystyried materion polisi cyffredinol ac yn aml iawn caiff eu anghenion eu hystyried yn olaf pan roddir ystyriaeth i faterion megis cynllunio a rheoli traffig. I ddweud y gwir, mae'n amlwg bod polisiâu a strategaethau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn cael eu pennu ar hyn o bryd gan arbenigwyr technegol sydd, tra'n 'gymwys iawn yn eu swyddi', â meddylfryd sy'n anwybyddu anghenion plant fel cerddwyr a beicwyr sy'n defnyddio manau cyhoeddus.
- 2.4. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail ar gyfer eu holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff hyn ei fynegi yn 7 Nod Craidd y Cynulliad.
- 2.5. Yn arbennig o berthnasol yn yr achos hwn mae'r pedwerydd Nod Craidd sy'n ymrwymo i sicrhau y gall plant a phobl ifanc 'fanteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwyllianol'; y trydydd Nod Craidd 'mwynhau'r iechyd gorau posibl sy'n cynnwys rhyddid o gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio'; a'r chweched Nod Craidd 'cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol'.
- 2.6. Mae'r awdurdod y cynigir iddo gael ei ganiatáu trwy'r GCD hwn â'r potensial i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyfrannu ymhellach at yr ymrwymiadau a wneir yn y 3 Nod Craidd yma.
- 2.7. Tra bo Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud llawer er mwyn sicrhau bod cyfrwng ar gyfer llais plant i ddylanwadu ar bolisiâu a strategaethau, drwy ei gefnogaeth i Draig Ffyni, y Comisiynydd Plant a mentrau cyfranogi, roedd sylwadau clo Pwyllgor diweddar Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("UNCRC") oedd yn ystyried trydydd a phedwerydd adroddiad cyfnodol y DU a Gogledd Iwerddon, yn ei gwneud hi'n gwbl glir bod llawer o waith i'w wneud er mwyn 'sicrhau hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ac adloniadol.'
- 2.8. Mewn ymgynghoriadau olynol a gyflawnwyd gan y Comisiynydd Plant ac eraill, mae'r plant wedi dynodi'r diffyg cyfleoedd i chwarae y tu allan fel un o'u tri prif fater llosg. Mae hyn yn cwmpasu'r broblem o deithio i fannau ble y gallant chwarae, er enghraifft i barciau, yn ogystal â'r cyfle iddynt chwarae ar ffyrdd a phalmentydd, fel y byddai llawer ohonom ni'n chwarae yn y gorfennol.
- 2.9. I ddweud y gwir, gallai rhywun feddwl mewn rhai cymunedau nad yw presenoldeb plant y tu allan yn cael ei ystyried yn weithgaredd dderbyniol bellach. Hynny yw, os nad ydynt unai yng nghwmni oedolyn cyfrifol ac yn cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd ystyrlon a 'diogel', eu bod unai mewn perygl neu'n risg annerbyniol i ddefnyddwyr y ffordd, hynny yw gyrrwyr cerbydau.
- 2.10. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw delio â'r canfyddiad hwn a chynnig arweiniad strategol wrth ddarparu amgylchedd ble y caiff presenoldeb ein plant y tu allan, yn chwarae yn eu cymunedau, ei ddathlu'n hytrach na'i feirniadu.
- 2.11. Tra bo ymdrechion yn cael eu gwneud ar draws Cymru i ddarparu lleoliadau awyr agored ble y gallai plant chwarae, rydym mewn

perygl o greu ardaloedd bychain wedi eu hynysu, "ghettos" chwarae, ble y gall plant chwarae, ond na fyddant yn gallu mynd iddynt oni bai bod eu rhieni yn eu hebrwng yno yn y car.

2.12. Tra bo ehangu menter 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' Llywodraeth y Cynulliad i ddod yn 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' yn ddatblygiad i'w groesawu, gallai gael ei atgyfnerthu o ganlyniad i'r GCD arfaethedig.

2.13. Yn 2002 mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Bolisi Chwarae ble y datganodd bod 'chwarae mor allweddol bwysig i bob plentyn yn natblygiad ei sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosïynol a chreadigol fel y dylai cymdeithas geisio ar bob cyfle i'w gefnogi a chreu amgylchedd sy'n ei feithrin. Dylai'r broses gwneud penderfyniadau, ar bob lefel o lywodraeth, ystyried effaith y penderfyniadau hynny ar gyfleoedd plant i chwarae.'

2.14. Yn 2006, yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae, gosododd Llywodraeth y Cynulliad Gam Gweithredu i 'annog y rheini sydd ynghlwm â thrafnidiaeth a chwarae'n lleol i gydweithio wrth symud polisiau 'Parthau Cartref' Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru yn eu blaen.'

2.15. Mae gan y GCD arfaethedig y potensial i arwain at ddeddfwriaethau pellach allai gyfrannu'n sylweddol at gyflawni nod y polisi yn ogystal â'r cam strategol a thrwy hynny greu amgylchedd fydd yn fwy tebygol o sicrhau y gellir gwireddu hawl plant i chwarae yn unol ag Erthygl 31 yr "UNCRC".

3.1. Cwestiwn: Beth yw eich barn ynghylch termau'r Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a ydynt yn rhy gyfyng neu'n rhy eang? Os oes angen, sut ddylid ail-ddrafftio'r Gorchymyn arfaethedig a pham?

3.2. Mae'n bwysig caniatáu hyblygrwydd yn ystod cyfnod Mesur y Cynulliad. Mae'n allweddol bod unrhyw Fesur fydd yn deillio o'r GCD yn gymwys hefyd i ddarpariaeth ar-y-ffordd. Mewn rhai ardaloedd trefol efallai y bydd yn anodd i greu isadeiledd newydd ac felly mae'n bwysig y caiff mesurau eu datblygu i ddefnyddio gofod priffyrdd sy'n bodoli eisoes ar gyfer cerdded a seiclo.

4.1. Cwestiwn: A fyddai termau'r Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu datblygu llwybrau di-draffig yng Nghymru trwy ddefnyddio Mesurau?

4.2. Nodwyd bod y GCD drafft yn cyfeirio at ddatblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd. Cefnogodd Chwarae Cymru'r ddeiseb a noddwyd gan Sustrans yn galw am rwydwaith o 'lwybrau di-draffig'. Credwn ei bod yn hanfodol bod y GCD yn caniatáu datblygu rheilffyrdd segur a choridorau glas eraill ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a hoffem gael ein sicrhau nad yw defnyddio'r term 'priffyrdd' yn cyfyngu ar hyn mewn unrhyw fodd.

5.1. Cwestiwn: Y cynnig yw "Darpariaeth sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru yng nghyd-destun datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd at ddefnydd defnyddwyr ar wahân i gerbydau modur." Beth yw eich barn ar hyn?

5.2. Ar wahân i'n pryderon ynghylch y modd y gellid ddiffinio'r term 'priffyrdd', rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i ganiatáu datblygu a chynnal rhwydwaith. Credwn bod y dair elfen yma'n allweddol er mwyn annog pobl i deithio mewn modd mwy heini. Er mwyn annog pobl i gwtogi eu teithiau mewn ceir, bydd yn rhaid i'r dewis arall gael ei ystyried yn fwy cyfleus. Bydd angen i lwybrau gynnig opsiwn mwy deniadol na'r car, yn enwedig ar gyfer siwrneiau byrion. Bydd angen iddynt fod wedi eu cynnal yn dda, â digon o arwyddbyst ac yn lwybrau uniongyrchol. Dylent greu rhwydwaith, yn hytrach na'r arfer presennol ble y gwelir nifer o enghreifftiau o leiniau byrion o darmac lliw gerllaw heol brysur sy'n gorffen yn sydyn. Mae gosod dyletswydd yn arbennig o bwysig er mwyn annog awdurdodau priffyrdd i ystyried bod darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn rhan allweddol o'u rôl.

6.1. Cwestiwn: A ddylid diffinio'r termau 'datblygu' a 'chynnal'?

6.2. Dylid diffinio'r rhain yn ystod y cyfnod Mesur.